# PWYLLGOR ARCHWILIO PERFFORMIAD

Cofnodion cyfarfod o’r Pwyllgor Archwilio Perfformiad a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Iau, 24 Medi 2015 am 9.30 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Richard Davies (Is-Gadeirydd), Geraint Lloyd-Williams, Arwel Roberts a Gareth Sandilands

Aelodau Cyfetholedig:- G Greenland, D Houghton, Dr D Marjoram, J Piper a G Williams

Presenoldeb aelodau arweiniol y gofynnwyd amdanynt gan y Pwyllgor:- Y Cynghorwyr Eryl Williams a Hugh Irving

Arsylwr:- Y Cynghorydd Martyn Holland

## HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr (MM), Pennaeth Addysg (KIE), Cydgysylltydd Rhwydwaith 14-19 (JG), Prif Reolwr, Cefnogi Busnes (TW), Swyddog Cwynion Corfforaethol (CO'G), Cydlynydd Archwilio (RE) a’r Gweinyddwr Pwyllgorau (SLW)

Dr Alwyn Jones, Pennaeth Safonau, GwE
Marc Berw Hughes, Uwch Ymgynghorydd Her, Canolfan Conwy a Sir Ddinbych, GwE
Celia Jones, Prifathro Cynorthwyol Coleg Llandrillo
Martin Evans - Rheolwr Rhaglen, Chweched y Rhyl

## 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Meirick Davies, Colin Hughes, Peter Owen, Dewi Owens, Merfyn Parry a/ac David Simmons

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd y Cynghorwyr Geraint Lloyd Williams a Martyn Holland gysylltiad personol ag Eitem 5, 6 a 7.

Datganodd Aelodau Cyfetholedig Addysg, G. Greenland, D. Houghton, Dr. D. Marjoram a J. Piper ddiddordeb personol yn eitemau 5, 6 a 7.

## 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Dim.

## 4 CANLYNIADAU ARHOLIAD DROS DRO

**Arholiadau Allanol Dros Dro ac Asesiadau Athrawon**

Cyflwynodd Aelod Arweiniol dros Addysg, y Cynghorydd Eryl Williams, adroddiad Arholiadau Allanol Dros Dro ac Asesiadau Athrawon (a ddosbarthwyd yn flaenorol). Cyflwynwyd yr adroddiad hwn i roi gwybodaeth i Aelodau am berfformiad asesiadau athrawon ac arholiadau allanol ysgolion Sir Ddinbych yn seiliedig ar y data terfynol sydd wedi ei ddilysu ar gyfer y Cyfnod Sylfaen, Cyfnod Allweddol 2/3 ac arholiadau allanol Cyfnod Allweddol 4 ac Ôl-16.

Cyflwynwyd Dr Alwyn Jones, Pennaeth Safonau, GwE, a Marc Berw Hughes, Uwch Ymgynghorydd Her – Hwb Conwy/Sir Ddinbych, GwE i'r Pwyllgor, gan y Pennaeth Addysg, Karen Evans.

Cadarnhaodd y Pennaeth Addysg bod yr holl ganlyniadau yng Nghyfnod Allweddol 4 yn rhai dros dro ac y byddai canlyniadau wedi'u gwirio ar gael ym mis Tachwedd a data meincnodi ar gael ym mis Rhagfyr 2015.

Roedd yr Awdurdod Lleol wedi dewis gyda GwE bod datblygiad mathemategol yn y Cyfnod Sylfaen wedi bod yn faes oedd yn haeddu ffocws gyda'r bwriad o wella.

Er gwaethaf gwelliant yng nghanlyniadau Cyfnod Allweddol 2 (CA2) yn 2015 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, mae safle Sir Ddinbych wedi gostwng gan fod canlyniadau wedi gwella mewn Awdurdodau Lleol eraill. Ar lefel CA2 daeth yn amlwg y byddai angen ymyrraeth yn gynt yn siwrnai addysg disgyblion, o bosibl yn y Cyfnod Sylfaen. Byddai hyn yn rhoi cefnogaeth i'r disgyblion yn ystod rhan gyntaf eu haddysg ac yn eu helpu i gyflawni eu potensial yn CA2.

Bu gwelliant yng nghanlyniadau Cyfnod Allweddol 3 (CA3) am y seithfed flwyddyn, a oedd yn galonogol iawn.

Roedd canlyniadau arholiadau allanol heb eu gwirio ar gyfer 2015 yn siomedig wrth i ganlyniadau lefelau 1 a 2 aros yr un fath, neu bu cwymp cyffredinol mewn perfformiad o gymharu â blynyddoedd blaenorol.

Roedd canlyniadau Cyfnod Allweddol 5 (CA5) yn debyg i'r graddau a gyflawnwyd yn y flwyddyn flaenorol.

Gan ymateb i gwestiynau'r Aelodau, dywedodd y Pennaeth Addysg a Swyddogion GwE:

- Yn y Cyfnod Sylfaen, roedd Sir Ddinbych, yn debyg i Awdurdodau Lleol eraill, roeddynt wedi bod yn canolbwyntio ar lythrennedd, ac o ganlyniad, roedd sgiliau mathemategol wedi dioddef. Dyma oedd y rheswm dros ganolbwyntio ar ddatblygiad mathemategol yn y dyfodol ac i adnabod anghenion addysgol arbennig (AAA) yn fuan yn natblygiad disgybl er mwyn targedu'r ymyrraeth gywir a rhoi cefnogaeth iddynt. Heb gymorth wedi'i dargedu yn gynnar, gallai'r disgyblion gael trafferth â phob pwnc

Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemategol (STEM) yn y pendraw;

- Roedd wedi bod yn siomedig nodi bod ysgolion uwchradd sy'n perfformio'n dda wedi llithro eleni yn erbyn perfformiad blaenorol, gan fod yr ysgolion hynny wedi derbyn cefnogaeth allanol dwys tan yn ddiweddar. Cafodd hyn ei briodoli i'r ffaith bod GwE, yn ystod ei gyfnod cychwynnol ers ei sefydlu, wedi canolbwyntio llawer o'i adnoddau a'i waith ar y sector cynradd, er anfantais i'r sector uwchradd. Roedd canlyniadau Ysgol Uwchradd y Rhyl yn arbennig o siomedig gan fod ei ganlyniadau eleni wedi bod ar yr un lefel â'r canlyniadau a gyrhaeddwyd pan oedd dan fesurau arbennig. Byddai hyn yn achos brys ar gyfer ymyrraeth a gwelliant. Roedd Ysgol Uwchradd y Rhyl wedi gofyn i nifer o bapurau arholiad ei disgyblion gael eu hail-farcio. Swyddogion y Cyngor a GwE wedi cwrdd â chynrychiolwyr Estyn, y Pennaeth a'r Llywodraethwyr i drafod y canlyniadau a'r pryderon cysylltiedig. Cytunwyd y byddai Bwrdd Adfer bychan yn cael ei sefydlu, sy'n cynnwys yr Awdurdod Lleol, yr Ysgol a chynrychiolwyr Annibynnol, gyda'r bwriad o fynd i'r afael â'r problemau (rhai ohonynt wedi cael eu nodi gan Estyn ddwy flynedd yn gynharach) ac i wella deilliannau i ddisgyblion;
- Mewn cyfarfod diweddar gyda Swyddogion Llywodraeth Cymru (LlC), GwE a chynrychiolwyr yr Awdurdod Lleol, cytunwyd bod angen rhoi gwybod i'r Adrannau Adnoddau Dynol am faterion gallu yn ymwneud ag athrawon unigol yn gynnar, gyda'r bwriad o'u cefnogi i gael y sgiliau angenrheidiol i gyflawni'r canlyniadau gorau posibl ar gyfer disgyblion;
- Hefyd, roedd angen i Benaethiaid dynnu sylw eu Corff Llywodraethu, at unrhyw feysydd o bryder a risg yn gynnar. Byddai hyn yn sicrhau bod y Corff Llywodraethu yn ymgymryd â'i rôl mewn modd cadarn a heriol i sicrhau cefnogaeth i ddisgyblion allu cyflawni eu llawn botensial;
- Ni fu unrhyw arwydd ystod blwyddyn ysgol 2014/15 bod perfformiad disgyblion y Sir mewn arholiadau allanol yn debygol o ddirywio;
- Mae ysgolion unigol yn gosod eu targedau eu hunain;
- Yn ystod tymor yr hydref 2015, roedd GwE yn ceisio ymweld â Chorff Llywodraethu pob ysgol i herio a phrofi'r targedau a osodwyd ganddynt, ac i weithio gyda Llywodraethwyr i wella eu sgiliau i fod yn fwy cadarn a heriol;
- Roedd GwE, fel sefydliad, wedi bod yn destun monitro a herio yn rheolaidd gan Lywodraeth Cymru. Roedd dau o'r consortia effeithiolrwydd a gwelliant ysgolion eraill yng Nghymru wedi wynebu heriau enfawr, ac o ganlyniad maent wedi cael buddsoddiad sylweddol gan Lywodraeth Cymru. Er gwaethaf y buddsoddiad, nid oedd y naill gonsortia na'r llall wedi sylweddoli eu potensial disgwyliedig. Dywedodd yr Aelod Arweiniol dros Addysg y byddai'n trafod hyn gyda'r Gweinidog yn ystod eu cyfarfod ganol fis Hydref;
- Cyflogodd yr Awdurdod Lleol "swyddogion cyswllt" i gefnogi disgyblion cyfnod sylfaen integreiddio i fywyd yr ysgol a nodi cefnogaeth sylfaenol neu anghenion arbennig. O dro i dro byddai gwahaniaethau sylweddol rhwng disgyblion oedd â theuluoedd oedd cael eu cefnogi gan gynlluniau "Dechrau'n Deg" a rhai nad oedd wedi cael y gefnogaeth;
- Mae disgyblion unigol yn datblygu ar gyflymder gwahanol rhwng 7 ac 11 oed. Mae'n bwysig felly bod unrhyw anghenion arbennig neu anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu hadnabod yn fuan er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau ar gyfer y disgyblion sydd angen cymorth;

- Mae GwE a'r Awdurdod Lleol yn ymdrechu'n barhaus i geisio cefnogi athrawon yn eu rôl. Fe wnaethant dracio eu perfformiad a chynnig y gefnogaeth briodol pan roedd angen. Y Corff Llywodraethu sydd â’r pwerau i benodi neu ddiswyddo staff addysgu;
- Er bod yr Awdurdod Lleol yn cymryd lles disgyblion o ddifri, ar ganlyniadau arholiadau allanol a chanlyniadau’r disgyblion yn y pen draw y byddant yn cael eu barnu.

Teimlai'r Aelodau Cyfetholedig y byddai'n bwysig bod GwE a'r Awdurdod lleol yn darparu hyfforddiant a datblygiad digonol i Lywodraethwyr Ysgol i'w cynorthwyo i adnabod y data pwysicaf a’i ddadansoddi’n gywir.

Ar ran y Pwyllgor, diolchodd y Cadeirydd i’r Pennaeth Addysg am ei holl waith caled ar y mater hwn.

***PENDERFYNWYD*** *yn amodol ar y sylwadau uchod, bod y Pwyllgor Archwilio Perfformiad yn derbyn yr adroddiad ac i wahodd y Rheolwr Gyfarwyddwr GwE i fod yn bresennol yng nghyfarfod y Pwyllgor Perfformiad ym mis Ionawr 2016, lle byddai'r canlyniadau arholiadau wedi’u gwirio yn cael eu cyflwyno.*

**<u>Canlyniadau Safon Uwch Chweched y Rhyl</u>**

Cyflwynodd Pennaeth Addysg Bennaeth Cynorthwyol Coleg Llandrillo, Y Rhyl - Celia Jones, a Rheolwr Rhaglen Chweched Y Rhyl - Martin Evans.

Rhoddodd Pennaeth Cynorthwyol Coleg Llandrillo, y Rhyl, drosolwg o'r cefndir i sefydlu Chweched y Rhyl a dywedodd wrth yr Aelodau bod canlyniadau Lefel A a Bagloriaeth Cymru a gyflawnwyd gan y myfyrwyr eleni yn gadarnhaol ar y cyfan. Cyflwynwyd gwybodaeth ystadegol i’r Pwyllgor yn dangos cyfraddau a graddau pasio y Coleg o gymharu â Sir Ddinbych yn ei chyfanrwydd a Chymru a Lloegr.

Wrth ymateb i gwestiynau'r Aelodau, dywedodd Pennaeth Cynorthwyol Coleg Llandrillo a Rheolwr Rhaglen ar gyfer Chweched Y Rhyl:

- Maent wrthi’n gwneud darn o waith i ganfod nifer y myfyrwyr o'r Rhyl sy’n mynychu ysgol neu gampysau coleg eraill ar gyfer eu haddysg bellach, ond yn gyffredinol y gred oedd bod y mwyafrif o’r myfyrwyr presennol yn Chweched y Rhyl yn gyn-ddisgyblion naill ai yn Ysgol Uwchradd y Rhyl neu Ysgol y Bendigaid Edward Jones, ynghyd ag o ychydig o gyn ddisgyblion Ysgol Glan Clwyd;
- Roedd amrywiaeth o resymau am y nifer ymddangosiadol uchel o fyfyrwyr a oedd wedi rhoi'r gorau i’w cyrsiau rhwng blynyddoedd 12 a 13. Roedd y rhesymau yn cynnwys sylweddoliad ar ran y myfyrwyr nad llwybr Lefel A oedd orau iddyn nhw. Roedd y myfyrwyr hyn yn dewis cyrsiau oedd yn fwy galwedigaethol fel rheol. Roedd eraill wedi rhoi’r gorau i’w cyrsiau Lefel A oherwydd diffyg cefnogaeth i’w hastudiaethau o gartref;
- Mae canlyniadau addysgol i bob myfyriwr sydd wedi’u cofrestru yn y coleg yn cael tracio, ac er gwaethaf y canfyddiad bod nifer uchel o fyfyrwyr wedi rhoi’r gorau i’w cyrsiau Lefel A rhwng Blynyddoedd 12 a 13, roedd y canlyniadau

addysg gwirioneddol i bob myfyriwr yn dda. Mae pob un heblaw dau a fu drwy Chweched y Rhyl y llynedd wedi cyflawni canlyniadau llwyddiannus;

- Roedd y Coleg yn cydnabod arwyddocâd pynciau Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg (STEM) a'u pwysigrwydd i'r economi lleol a chyflogwyr. Roedd y Coleg yn gweithio'n agos gyda diwydiant lleol i geisio diwallu eu hanghenion ac i fonitro cynnydd cyn-fyfyrwyr;
- Yn debyg i chweched dosbarth ysgolion, byddai myfyrwyr coleg yn dechrau astudio 4 pwnc AS ym mlwyddyn 12, gan symud ymlaen i astudio 3 Lefel A ym mlwyddyn 13. Byddai myfyrwyr hefyd yn ymgymryd â Bagloriaeth Cymru. Byddai myfyrwyr a oedd yn ei chael yn anodd yn ystod ac ar ddiwedd Blwyddyn 12 yn cael eu cefnogi i drosglwyddo i gyrsiau eraill mwy addas. Ni fyddai disgwyl iddynt adael y Coleg.
- Roedd myfyrwyr talentog a dawnus yn cael eu cefnogi i gyflawni eu llawn botensial, ac roedd cynyddu nifer y dysgwyr sy'n mynd i un o Brifysgolion Grŵp Russell wedi ei adnabod fel un o'r meysydd yn y Coleg i'w ddatblygu yn y flwyddyn i ddod, fel yr oedd gwella cyfradd llwyddo cyffredinol y Coleg, ynghyd â'i broffil graddau.

Gan ymateb i bryderon yr aelodau am y nifer y sefydliadau addysg uwch, gan gynnwys prifysgolion mawr eu parch a oedd yn dal i fod yn amharod i gydnabod Bagloriaeth Cymru fel cymhwyster mynediad ag enw da ar gyfer addysg uwch yn ei rinwedd ei hun, dywedodd y Pennaeth Addysg a Cydlynydd Rhwydwaith 14-19 fod hyn yn newid yn araf. Roedd Prifysgol Caergrawnt wedi cyhoeddi'n ddiweddar y byddai yn cydnabod Bagloriaeth Cymru fel cymhwyster mynediad. Roedd angen mwy o waith o bosibl gyda sefydliadau eraill i geisio eu perswadio am ddilysrwydd Bagloriaeth Cymru ac i'w haddysgu ar yr ymdrech a wnaed gan fyfyrwyr i ennill y cymhwyster.

Cyn i'r drafodaeth ddod i ben, cytunodd y Cydlynydd Rhwydwaith 14-16 y byddai'n rhoi adroddiad gwybodaeth i'r Aelodau am ddargadwad a datblygiad Dosbarthiadau Chweched yn Sir Ddinbych.

Diolchodd y Cadeirydd i Swyddogion y Coleg am ddod i'r Pwyllgor.

***PENDERFYNWYD derbyn yr wybodaeth am ganlyniadau Lefel A Chweched Rhyl, yn amodol ar yr arsylwadau uchod.***

## 5 PERFFORMIAD MYFYRWYR A*-A AR LEFEL TGAU A SAFON UWCH

Cyflwynodd y Pennaeth Addysg adroddiad ar Berfformiad myfyrwyr A*-A lefel TGAU a Lefel "A" (a ddosbarthwyd yn flaenorol), i roi gwybod i Aelodau am berfformiad graddau A*-A Sir Ddinbych mewn arholiadau allanol yng Nghyfnod Allweddol 4 ac Ôl 16.

Yn ystod ei chyflwyniad, dywedodd eu bod wedi nodi angen i ganolbwyntio ar anghenion addysgol arbennig (AAA), prydau ysgol am ddim (PYD) a disgyblion mwy galluog a thalentog yn y dyfodol. Dywedodd hefyd:

- Mae mesurau i fynd i'r afael â'r gostyngiad mewn perfformiad yn Ysgol Brynhyfryd yn cael eu rheoli drwy Gynllun Gweithredu Estyn yr ysgol;

- Mae angen trafodaeth mewn perthynas ag adrannau sy'n perfformio’n dda o fewn Partneriaeth Dyffryn Clwyd a sut y gellid eu defnyddio i gefnogi a chyflwyno eu pynciau i bob myfyriwr yn yr ardal i’w galluogi i wireddu eu canlyniadau gorau posibl.

Gan ymateb i gwestiynau'r Aelodau, dywedodd y Pennaeth Addysg a Swyddogion:

- Er bod rhai ysgolion wedi cyflawni canlyniadau ardderchog, byddai angen ei herio bob amser er mwyn sicrhau bod safonau'n cael eu cynnal a'u gwella yn barhaus. Byddai angen cefnogi ysgolion eraill er mwyn gwella eu canlyniadau cyfredol o un flwyddyn i’r llall;
- Dylid defnyddio canlyniadau da fel meincnod ar gyfer y blynyddoedd sydd i ddod a dylai ysgolion ymdrechu i wella arnynt o flwyddyn i flwyddyn;
- Roedd angen codi dyheadau’r ysgol a’r disgyblion o’r hyn y gallant ei gyflawni;
- Roedd angen hefyd i symud y myfyrwyr mwyaf dawnus ymlaen i lefel uwch;
- Roedd perfformiad Ysgol Uwchradd Bendigaid Edward Jones ac Ysgol Uwchradd y Rhyl yng nghanlyniadau TGAU eleni yn siomedig, yn enwedig o gofio lefel y gwelliant yn y blynyddoedd blaenorol. Roedd yn ymddangos unwaith roedd y cymorth dwys yn cael ei dynnu'n ôl, roedd perfformiad disgyblion wedi llithro’n sylweddol. Mae dadansoddiad wedi dangos bod y ddwy ysgol wedi dioddef o set gymhleth o ffactorau cyfrannol. O ganlyniad, byddai cefnogaeth yn cael ei adfer ar gyfer y ddwy ysgol mewn ymgais i atal y dirywiad a byddai Grŵp Monitro Safonau Ysgolion yn darparu lefel ychwanegol o her i'r ysgolion.

Awgrymodd Aelodau y gallai fod yn fuddiol i lywodraethwyr ysgolion roi cefnogaeth i ysgolion sydd mewn trafferthion yn y dyfodol.

Ar ddiwedd y drafodaeth:

***PENDERFYNWYD:***

*(i) Nodi perfformiad ysgolion yn erbyn perfformiad blaenorol a'r meincnodau allanol;*
*(ii) Argymell bod mwy o gymorth a her wedi’i dargedu yn cael ei roi i ysgolion yn y sir i sicrhau bod perfformiad yn gwella; a*
*(iii) Bod cydbwysedd priodol o gymorth, her ac atebolrwydd yn cael ei gynnig i bob ysgol i anelu at welliant o un flwyddyn i’r llall.*

**RHAN II**

**GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

PENDERFYNWYD- dan ddarpariaethau Adran 100a(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 i wahardd y Wasg a’r Cyhoedd o’r cyfarfod ar gyfer yr eitemau a ganlyn, ar y sail ei bod yn debygol y bydd gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu, fel y'i diffinnir ym mharagraff 13 Rhan 4 Atodlen 12a Deddf Llywodraeth Leol 1972.

## 6 EFFEITHIOLRWYDD Y CYMORTH PRESENNOL A GYNIGIR I YSGOLION O FEWN Y SIR SYDD ANGEN MEWNBWN YCHWANEGOL

Cyflwynodd y Pennaeth Addysg, Pennaeth Safonau ac Uwch Ymgynghorydd Her GwE, i gyflwyno eu hadroddiad ar effeithiolrwydd y gefnogaeth bresennol sy’n cael ei chynnig i ysgolion yn Sir Ddinbych a nodwyd rhai sydd angen cefnogaeth ac ymyrraeth ychwanegol.

Hysbyswyd yr Aelodau fod GwE, yn ystod y cyfnod cychwynnol ers ei sefydlu, yn unol â'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth (CLG), wedi canolbwyntio ar y sector cynradd yn Sir Ddinbych, oherwydd ar y pryd, roedd mwy o ysgolion yn y categori oren neu goch yn y sector cynradd yn y sir. Roedd hyn wedi talu ar ei ganfed, oherwydd erbyn hyn, nid oedd unrhyw ysgol gynradd yn y categori coch, ac roedd llai yn y categori oren ar gyfer y Sir. Fodd bynnag, roedd mwy o ysgolion cynradd yn awr yn y categori melyn a dwy ysgol yn uchel yn y categori coch, ac roedd hyn yn achos pryder. O ganlyniad, byddai ffocws y Cytundeb Lefel Gwasanaeth newydd ar ddarparu ymyrraeth a chefnogaeth i'r sector addysg uwchradd. Mewn ymateb i gwestiynau aelodau, dyma swyddogion GwE yn-

- Cadarnhau y rhagwelwyd y byddai un ysgol uwchradd, yn symud o'r categori coch i'r categori oren yn y dyfodol agos, wrth i weithrediad y camau yng Nghynllun Gweithredu Estyn symud ymlaen;
- Dywedasant er gwaetha’r ffaith y byddai ffocws GwE yn y dyfodol ar y sector uwchradd, ni ddylai’r sector cynradd ddioddef, gan y byddai ymgynghorwyr her y sector cynradd yn parhau i weithio gydag ysgolion cynradd;
- Cafodd y Pwyllgor wybod, yn rhan o gynllunio gwasanaeth GwE, roeddynt yn bwriadu adeiladu gallu a gwytnwch o fewn y sefydliad i gwrdd â’r galw yn y dyfodol, er enghraifft roeddynt wedi comisiynu athrawon a phrifathrawon o du allan i Sir Ddinbych ac athrawon/penaethiaid oedd wedi ymddeol yn ddiweddar, oedd ag enw da, i ddod mewn a herio ysgolion ar agweddau amrywiol o’u gwaith;
- Cafodd yr aelodau wybod y byddai GwE yn llunio rhaglen gwella sgiliau gyda’r bwriad o gefnogi a datblygu prifathrawon a rheolwyr y dyfodol;
- Cadarnhawyd, er mwyn i'r uchod fod yn llwyddiannus, roedd angen adeiladu lefel uchel o gyd-ymddiriedaeth rhwng y sefydliad, athrawon a staff yr ysgol, a chyrff llywodraethu;
- Cawsant wybod y bydd modd defnyddio meddalwedd system tracio newydd yr wythnos nesaf a fyddai'n helpu’r awdurdod lleol a GwE i adnabod unrhyw lithriadau’n ddigon buan er mwyn gallu cymryd camau ymyrraeth a lliniaru’r risg o ganlyniadau gwael a chanlyniadau anfoddhaol ar gyfer dysgwyr;
- Wedi rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor nad oedd GwE yn hunanfodlon ac ni allai fforddio gadael i’r ysgolion sydd yn y categorïau melyn a gwyrdd i lithro;
- Er mwyn i ysgol fod yn llwyddiannus, roedd angen dod o hyd i’r cydbwysedd priodol rhwng cefnogaeth ac atebolrwydd i’r staff a’r corff llywodraethu.
- Pwysleisiodd bod disgwyl i GwE gael ei herio'n drwyadl gan Aelod Arweiniol pob awdurdod lleol ar gyfer Addysg a LIC am elfen gwerth am arian ar ei waith.

O ran y lefel uchel o absenoldeb, dywedodd y Pennaeth Addysg bod y Cyngor wedi cynnal llawer o waith yn y maes hwn. Byddai ailstrwythuro'r Tîm Gwaith Cymdeithasol Addysg (GCA) hefyd yn cefnogi gwaith ar leihau absenoldeb. Fodd

bynnag, roedd caniatâd y rhieni yn cyd-fynd â'r mwyafrif o achosion absenoldeb hy, tynnu disgyblion allan o'r ysgol i fynd ar wyliau. Roedd Sir Ddinbych wedi cyhoeddi ei Rhybudd Cosb Benodedig cyntaf (HCB) ar gyfer absenoldeb yn ddiweddar.

Mynegodd Aelodau eu pryderon ynghylch:

- Nifer yr athrawon oedd yn gwneud cais am hyfforddiant prifathro a swyddi prifathrawon;
- Nifer o athrawon da iawn a oedd yn gadael y proffesiwn addysgu i fynd i weithio i GwE a sefydliadau addysg eraill;
- Mae'r potensial i ysgol fod yn llwyddiannus neu'n aflwyddiannus yn dibynnu ar ei brifathro a thîm arweinyddiaeth yr ysgol a'r risg potensial a achosir i lwyddiant yr ysgol petai ei brifathro/athro llwyddiannus yn cael mynd ar secondiad i GwE i herio/cefnogi "ysgolion sy'n methu". Roedd staff o dan ddigon o straen fel yr oedd hi heb osod disgwyliadau ychwanegol arnynt;
- Y gefnogaeth sydd ar gael i gyrff llywodraethu wrth benodi staff, yn enwedig prifathrawon; a'r
- Cymorth sydd ar gael i benaethiaid i gael rhywun i gyflenwi pan fyddant yn mynychu hyfforddiant;
- Faint o adnoddau ariannol a dynol sydd ar gael i GwE er mwyn gallu ymgymryd â'i waith yn effeithiol; ac
- Ar y rhagolygon tymor hir ar gyfer Ysgol Uwchradd y Rhyl yn seiliedig ar ei ganlyniadau siomedig yn 2015.

Dywedodd swyddogion y Cyngor:

- Nad yw rhai o'r ysgolion sy'n perfformio orau yn Lloegr yn derbyn unrhyw gefnogaeth gan awdurdodau lleol, dylai ysgolion yn Sir Ddinbych hefyd ddyheu am ddiwylliant o beidio â bod yn ddibynnol;
- Bod angen penodi'r bobl iawn i arwain ysgolion, trwy edrych ymhellach i ddenu'r ymgeiswyr elitaidd, byddai pennaeth da gyda dyheadau uchel a fyddai'n arwain at ganlyniadau gwell i bawb a diwylliant o beidio â bod yn ddibynnol;
- Mae ganddynt bryderon gwirioneddol am y canlyniadau hirdymor ar gyfer un ysgol uwchradd; ac
- Atebolrwydd y cyrff llywodraethu i benodi staff ac am berfformiad ysgolion.

Yn dilyn y drafodaeth fanwl:

***PENDERFYNWYD*** *yn amodol ar sylwadau'r Pwyllgor -*

*(i) Derbyn gwybodaeth a ddarperir ar y gefnogaeth a'r her a roddir i ysgolion a nodwyd, a chydnabod bod y cymorth a ddarparwyd i'r sector cynradd wedi arwain at ganlyniadau cadarnhaol;*

*(ii) Argymell yr angen i daro cydbwysedd priodol rhwng cefnogi, herio ac atebolrwydd i ysgolion a chyrff llywodraethu ysgolion;*

*(iii) Argymhellwyd bod hyfforddiant priodol yn cael ei ddarparu i lywodraethwyr ysgol i'w galluogi i gyflawni a chynnal eu rôl herio;*

*(iv) Cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor yng nghyfarfod mis Ionawr 2016 yn ymwneud â rolau a chyfrifoldebau cyrff llywodraethu ysgolion;*

*(v) Bod yr adroddiad ar "Gwirio Arholiadau Allanol ac Asesiadau Athrawon" a drefnwyd i'w gyflwyno i'r Pwyllgor ym mis Ionawr 2016 yn cynnwys y canlyniadau cyd-ddadansoddiad GwE/Sir Ddinbych o dangyflawniad disgyblion y sir yn 2015; ac*

*(vi) Gwahodd Rheolwr Gyfarwyddwr GwE i’r cyfarfod ym mis Ionawr 2016.*

**RHAN I – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL AR GYFER Y RHAN HON O’R CYFARFOD**

Cyfeiriodd y Cydlynydd Archwilio at y Cyfansoddiad ac eglurodd nad oedd gan y Pwyllgor gworwm bellach. Cytunodd yr Aelodau i fwrw ymlaen â'r cyfarfod ar sail anffurfiol a bod unrhyw gamau a gymerir yn cael eu cadarnhau yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 10 Rhagfyr, 2016.

**7 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**

Cyflwynwyd Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio Perfformiad a gynhaliwyd ddydd Iau 16 Gorffennaf 2015.

***PENDERFYNWYD** yn dilyn cadarnhad yn y cyfarfod nesaf, cymeradwyo a derbyn cofnodion y Pwyllgor Archwilio Perfformiad a gynhaliwyd ar 16 Gorffennaf, 2015 fel cofnod cywir.*

**8 “EICH LLAIS" CHWARTER 1 2015/2016**

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Cwsmeriaid a Llyfrgelloedd adroddiad "Eich Llais” Chwarter 1 2015/2016 (a ddosbarthwyd yn flaenorol) i roi gwybodaeth i'r Pwyllgor am unrhyw faterion perfformiad ac i wneud argymhellion i ymdrin â'r rhain yn unol â hynny.

Wrth ymateb i gwestiynau'r Aelodau, dywedodd y Prif Reolwr: Swyddog Cefnogi Busnes a'r Cwynion Corfforaethol:

- Efallai y bydd yn ddefnyddiol i'r Pwyllgor ar gyfer adroddiadau yn y dyfodol, i gynnwys sylwebaeth fer ar y rhesymau pam fod rhai perfformiad gwasanaethau yn erbyn gweithdrefn gwyno "Eich Llais" yn cofrestru’n "goch", ac i gynnwys graff yn yr adroddiad er mwyn dangos y duedd ar hyn o bryd mewn perthynas ag ymdrin â chwynion;
- O ran y chwe chwyn cam 2 a dderbyniwyd gan yr un cwsmer, daeth Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i’r casgliad bod rhaid i’r Cyngor ymdrin â phob cwyn a wneir gan y cwsmer hwn yn briodol. Roedd y Pwyllgor yn cydnabod y gallai hyn gael goblygiadau adnoddau sylweddol i'r Cyngor, gan nodi y gallent ddefnyddio Polisi ar "Ymdrin ag ymddygiad annerbyniol gan gwsmeriaid" os yw'n briodol.
- Cafodd perfformiad y Cyngor wrth ymdrin â'r nifer uchel o gwynion a dderbyniwyd gan Adran y Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol, a'r amser a gymerwyd i'w datrys ei gymhlethu gan natur y gwasanaeth a'i gweledigaeth i'r holl breswylwyr, ynghyd â'r amser a'r goblygiadau ariannol o ddatrys materion yn foddhaol.

***PENDERFYNWYD***

*(i) I dderbyn yr wybodaeth am berfformiad gwasanaethau wrth ddelio â chwynion; ac*
*(ii) Dylai adroddiadau yn y dyfodol gynnwys naratif ar y rhesymau pam roedd gwasanaethau yn cofrestru'n "goch" yn eu perfformiad wrth ymdrin â chwynion a pha fesurau roeddynt yn eu cymryd mewn ymgais i ddatrys cwynion.*

## 9 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y PWYLLGOR ARCHWILIO

Cyflwynodd y Cydlynydd Archwilio adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) ynghylch y Perfformiad Rhaglen Waith i'r Dyfodol y Pwyllgor Archwilio Perfformiad.

Cytunwyd ar gyfer y cyfarfod 10 Rhagfyr i wahodd:

- Aelod Arweiniol Cyllid, Cynllun Corfforaethol a Pherfformiad:
- Aelod Arweiniol dros Gwsmeriaid a Llyfrgelloedd; ac
- Aelod Arweiniad dros Ofal Cymdeithasol, Gwasanaethau Plant ac Oedolion

Cyfarfod 28 Ionawr 2016 - dwy eitem bellach i'w hychwanegu at y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol:

- Llywodraethwyr Ysgolion a Chyrff Llywodraethu Ysgolion; ac
- Arholiadau Allanol wedi'u Gwirio ac Asesiadau Athrawon

***PENDERFYNWYD*** *- yn amodol ar yr uchod, cymeradwyo Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Archwilio Perfformiad, fel y caiff ei hamlinellu yn Atodiad 1 yr adroddiad.*

## 10 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR

Dim.

Cyn diwedd y cyfarfod, mynegodd y Prif Weithredwr ei siom mai dim ond pedwar o'r deg aelod etholedig posibl y Pwyllgor oedd yn bresennol ar gyfer y cyfarfod, roedd hyn yn golygu nad oedd y Pwyllgor yn gwneud cworwm er mwyn trafod yr eitemau nad oedd yn ymwneud ag addysgu ar y rhaglen fusnes. Diolchodd aelodau Cyfetholedig Addysg am eu presenoldeb a'u cyfraniad i'r drafodaeth ac am sicrhau bod gan y Pwyllgor gworwm ar gyfer y rhan fwyaf o'r eitemau busnes. Roedd y ffaith nad oedd unrhyw aelodau etholedig o ardal y Rhyl yn bresennol yn hynod siomedig yn ei farn o, yn enwedig o ystyried y pryderon a fynegwyd yn yr adroddiadau a gyflwynwyd ar berfformiad Ysgol Uwchradd y Rhyl mewn arholiadau allanol eleni. Dywedodd y byddai'n trafod y mater gyda'r Arweinyddion Grwpiau, gan bwysleisio pwysigrwydd presenoldeb mewn cyfarfodydd wrth i'r Cyngor baratoi ar gyfer Arolygiad Corfforaethol gan Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) yn 2016.

**Daeth y cyfarfod i ben am 12:40pm.**